



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Penderfyniad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion)
(Cyflogau)
2008

Mawrth 2008

CYNNWYS

CYNNWYS	i
1. RHAGARWEINIAD, DIFFINIADAU A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL	2
1.1. Rhagarweiniad	2
1.2. Penderfyniad y Llywydd	2
2. CYFLOGAU AELODAU	3
2.1. Swm sy'n Daladwy	3
2.2. Cwnsler Cyffredinol	4
2.3. Talu Cyflogau	4

1. RHAGARWEINIAD, DIFFINIADAU A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

1.1. Rhagarweiniad

1.1.1. Penderfyniad gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn o dan adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 1.7 ac fe'i gelwir yn Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau) 2008 a daw i rym ar 7 Mawrth 2008.

1.1.2. Mae'r Penderfyniad hwn yn pennu'r cyflogau sy'n daladwy i Aelodau'r Cynulliad o 4 Mai 2007. Yn amodol ar unrhyw arbediad a darpariaethau cyfamserol a gynhwysir ynddo, mae'r Penderfyniad hwn yn disodli adran 2 o Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 2006 na fydd yn gymwys bellach.

1.2. Penderfyniad y Llywydd

1.2.1. Y Llywydd fydd yn penderfynu ar unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r hawl i dderbyn cyflog a ddangosir yn y Penderfyniad hwn.

2. CYFLOGAU'R AELODAU

2.1. Swm sy'n Daladwy

2.1.1 Y cyflog sy'n daladwy i Aelodau o 4 Mai 2007 fydd swm sy'n cyfateb i 82.0 y cant o gyflog Aelod Seneddol. Nid yw cyflog Aelod yn dod yn daladwy hyd nes ei fod/bod ef/hi wedi tyngu llw neu wneud y datganiad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn unol ag adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

2.1.2 Bydd cyflogau Aelodau'r Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop ddwy ran o dair yn llai yn unol ag adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.1.3 Bydd Aelodau sydd yn gwneud unrhyw un o'r swyddi canlynol â hawl i dderbyn cyflog ychwanegol o 4 Mai 2007 hyd 31 Mawrth 2008 fel a ganlyn:

Swydd	Cyflog
Prif Weinidog Cymru	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel ag Ysgrifennydd Gwladol fel y diffinnir yn y Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975
Gweinidog yn y Cynulliad /Llywydd/ Arweinydd y Blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â Gweinidog Gwladol fel y diffinnir yn y Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975
Dirprwy Weinidog yn y Cynulliad/Dirprwy Lywydd	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 62.9 y cant o gyflog Gweinidog yn y Cynulliad
Cadeiryddion Pwyllgorau a sefydlwyd o dan Reolau Sefydlog 12, 13 a 14/ Arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol ac eithrio'r blaid fwyaf	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 14.6 y cant o gyflog Gweinidog yn y Cynulliad

2.1.4 Bydd Aelodau sydd yn gwneud unrhyw un o'r swyddi canlynol â hawl i dderbyn cyflog ychwanegol o 1 Ebrill 2008 fel a ganlyn:

Swydd	Cyflog
Prif Weinidog Cymru	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel ag Ysgrifennydd Gwladol
Gweinidog yn y Cynulliad/ Llywydd/ Arweinydd y Blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â Gweinidog Gwladol

Dirprwy Weinidog yn y Cynulliad/Dirprwy Lywydd/ Prif Chwip y Llywodraeth	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 62.9 y cant o gyflog Gweinidog yn y Cynulliad
Cadeiryddion Pwyllgorau a sefydlwyd o dan Reolau Sefydlog 12, 13 a 14/ Arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol ar wahân i'r Blaid fwyaf/ Comisiynwyr y Cynulliad/ Prif Chwip yr Wrthblaid	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 27.9 y cant o gyflog Gweinidog yn y Cynulliad
Cadeiryddion Pwyllgorau a sefydlwyd o dan Reolau Sefydlog 15, 17,18 a 21	Cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â 14.6 y cant o gyflog Gweinidog yn y Cynulliad

2.1.5 Os oes gan Aelod fwy nag un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 neu baragraff 2.1.4 caiff dderbyn un yn unig o'r cyflogau hyn, sef y cyflog uchaf neu yn ôl fel y bo'n digwydd, y swydd uchaf ei chyflog.

2.2 Cwnsler Cyffredinol

2.2.1 Caiff Cwnsler Cyffredinol a benodwyd o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n Aelod Cynulliad dderbyn cyflog deiliad swydd ychwanegol ar yr un lefel â Gweinidog yn y Cynulliad ond ni chaiff dderbyn cyflogau ychwanegol o dan amodau'r paragraff hwn a pharagraff **Error! Reference source not found.** neu baragraff 0 fel bo'n briodol.

2.2.2 Caiff Cwnsler Cyffredinol a benodwyd o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nad yw'n Aelod Cynulliad dderbyn cyflog ar yr un lefel â chyfanswm y cyflog sy'n daladwy i Weinidog yn y Cynulliad o dan baragraffau 0 a **Error! Reference source not found.** neu 0 fel bo'n briodol.

2.3 Talu Cyflogau

2.3.1. Bydd cyflogau'n cael eu talu'n fisol fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy drosglwyddiad electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

